# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Eithinog**

**Cartref Eithinog Leonard Cheshire**
**Yr Hen Brifffordd**
**Bae Colwyn**
**LL28 5YA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Eithinog

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Leonard Cheshire Disability |
| Lleoedd cofrestredig | 42 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 7/7/2023 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol yw hwn, sy'n canolbwyntio ar feysydd o'r gwasanaeth y nodwyd bod angen cymryd camau gweithredu â blaenoriaeth yn eu cylch yn ystod yr arolygiad diwethaf.  Ni chaiff gofal a chymorth, yr amgylchedd nac arweinyddiaeth a rheolaeth eu hystyried yn llawn yn ystod yr arolygiad hwn.

Mae'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu bellach yn cael ei oruchwylio'n dda. Mae amrywiaeth o archwiliadau, gwaith goruchwylio gan y rheolwr interim newydd a'r Unigolyn Cyfrifol ac amrywiaeth o fforymau rheoli yn helpu i fonitro a gwella'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu. Mae'r staff yn sicrhau y caiff cyfrinachedd ac urddas y bobl eu diogelu bob amser.

Gwelsom fod nifer o welliannau cadarnhaol wedi cael eu gwneud ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth mewn amgylchedd diogel, glân ac addas sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac sy'n diwallu eu hanghenion synhwyraidd a'u hanghenion corfforol. Buddsoddir mewn gwaith ailaddurno/adnewyddu yn barhaus. Mae'r staff yn cyfathrebu â'r bobl mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r bobl yn cael gofal caredig, parchus a thosturiol. Mae'r staff yn diogelu ac yn parchu preifatrwydd ac urddas y bobl ac mae digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion y bobl a'u cadw'n ddiogel. Mae cynlluniau gofal a chymorth y bobl yn adlewyrchu eu hanghenion amrywiol, ac mae hyn yn hybu eu llesiant ac ansawdd eu bywyd.

Mae'r bobl yn dilyn eu diddordebau ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi'u teilwra'n benodol ar eu cyfer. Mae'r cymorth ar gyfer y staff wedi gwella, ac mae'r hyfforddiant yn gwella.

## Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r bobl a'r rhai sy'n bwysig iddynt yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau wrth gynllunio eu gofal a llunio asesiadau risg. Ymgynghorir â'r bobl ynghylch materion yn y cartref drwy gyfarfodydd ffurfiol ac ar sail un i un. Mae'r staff yn cefnogi'r bobl i fynegi eu barn drwy ddefnyddio eu dewis ddull cyfathrebu ac maent yn parchu dewisiadau'r bobl ac yn bodloni eu dymuniadau lle bynnag y bo'n bosibl. Roedd y staff yn gwybod pan oedd y bobl am dreulio amser ar eu pen eu hunain a chael preifatrwydd, ac roeddent yn parchu hyn. Mae'r staff yn dangos parch ac yn trin y bobl mewn modd sensitif ac urddasol.

Mae amgylchedd y cartref yn helpu'r bobl i sicrhau safon dda o ddiogelwch a llesiant. Mae mynedfa'r cartref yn ddiogel ac mae arferion diogel ar waith mewn perthynas â rheoli heintiau. Nid oes unrhyw beryglon na chyfarpar yn y coridorau na'r ardaloedd cymunedol. Caiff y drysau sy'n arwain at ardaloedd sy'n cynnwys peryglon posibl eu cloi. Mae gwelliannau wedi'u gwneud o ran addurno ac adnewyddu rhannau o'r amgylchedd. Caiff gwybodaeth gyfrinachol ei chadw dan glo. Mae'r ardaloedd cymunedol yn gartrefol ac yn lân ac mae gan y bobl fannau penodol lle y gallant eistedd ac ymlacio.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ar y cyfan ac mae'r staff yn eu hamddiffyn rhag niwed. Mae'r staff yn gwybod sut i amddiffyn y bobl rhag gofal gwael a chamdriniaeth gan eu bod wedi cael hyfforddiant ar sut i adnabod achosion o gamdriniaeth a rhoi gwybod amdanynt, ac maent yn gwybod sut i gymhwyso'r hyfforddiant hwnnw. Mae polisi diogelu ar waith i'r staff gyfeirio ato. Mae digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion y bobl, eu goruchwylio a'u cynorthwyo, a'u cadw'n ddiogel. Mae'r tîm rheoli yn ymchwilio i ddigwyddiadau ac yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd er mwyn helpu'r staff i wella ansawdd y diogelwch a'r cymorth a ddarperir. Dywedodd y staff a'r bobl wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus i fynd at y tîm rheoli i godi unrhyw bryderon. Mae angen gwella awybodaeth y staff am y mathau penodol o ddeiet y mae'r bobl yn eu dilyn.

Mae anghenion corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl yn cael eu diwallu. Mae'r cartref yn groesawgar ac mae amgylchedd ymlaciol a dymunol yno. Mae'r staff yn rhoi sylw i anghenion cymorth ac emosiynau'r bobl. Gwelsom fod y staff yn ymateb mewn ffordd briodol ac urddasol a'u bod yn rhoi tawelwch meddwl pan fo angen. Mae'r cofnodion yn cynnwys gwybodaeth am lefel annibyniaeth y bobl a'r cymorth sydd ei angen arnynt gan y staff pan na allant wneud pethau drostynt eu hunain.

## Gofal a Chymorth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl yn cael gofal tosturiol a charedig gan staff sy'n defnyddio iaith gadarnhaol a pharchus y mae'r bobl yn ei deall ac yn ymateb yn dda iddi. Roedd yr adborth a gafwyd gan weithiwr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref yn gadarnhaol iawn, a dywedodd fod y staff yn dangos caredigrwydd diffuant, eu bod yn barchus a bod y gofal a ddarperir yn ardderchog. Gwelsom fod aelodau o'r staff yn dangos cynhesrwydd a pharch wrth ryngweithio â'r bobl. Roeddent yn gyfeillgar, yn gynhwysol ac yn hwyliog ac roedd ymdeimlad gwirioneddol o gynhesrwydd a charedigrwydd wrth i'r bobl a'r staff ryngweithio â'i gilydd. Gwelsom sawl enghraifft o'r staff yn bod yn amyneddgar ac yn defnyddio dulliau rhyngweithio ac adnoddau cyfathrebu priodol â'r bobl.  Mae'r bobl yn cael cynnig dewis ac mae'r staff yn rhoi amser iddynt benderfynu. Nid ydynt yn cael eu brysio a gallant wneud pethau yn eu hamser eu hunain.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Mae'r cynlluniau gofal personol a'r asesiadau risg yn glir ac yn rhoi gwybodaeth i'r staff i'w galluogi i ddarparu gofal a chymorth i'r bobl yn unol â'r anghenion a nodwyd. Mae nodiadau a siartiau dyddiol yn dangos bod y bobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt pan fo'i angen. Mae'r profiad yn ystod amseroedd bwyd yn gadarnhaol, a gwelsom fod y bobl yn cael help i fwyta eu prydau bwyd a'u lluniaeth. Gallai'r staff esbonio eu rolau mewn perthynas ag unigolion heb orfod cyfeirio at ddogfennaeth am eu bod yn eu hadnabod yn dda.  Fodd bynnag, gwelsom dri digwyddiad a oedd wedi'u cofnodi lle nad oedd y staff wedi dilyn y cyngor cywir o ran y math o ddeiet a ragnodwyd. Nododd yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr interim eu bod wedi nodi'r maes hwn fel un y mae angen ei gryfhau a'i fod yn flaenoriaeth iddynt. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Caiff y bobl eu cefnogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gymdeithasol acyn ddiwylliannol berthnasol iddynt er mwyn osgoi ynysigrwydd cymdeithasol. Mae un o'r preswylwyr yn cynnal arddangosiadau coginio wythnosol megis gwneud crempogau. Gwelsom fod y bobl wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer Calan Gaeaf a'u parti. Roedd darnau o waith celf a chrefft arswydus wedi'u gwneud gan y bobl i'w gweld ym mhob rhan o'r cartref a gwelsom fod y bobl yn mwynhau eu hunain yn fawr wrth addurno bisgedi a phobi cacennau. Roedd y bobl yr oedd angen cymorth arnynt yn cael help mewn modd sensitif. Dywedodd un unigolyn fod rhywbeth yn digwydd bob amser a bod llawer o deithiau'n cael eu trefnu, ond nad oedd yn rhaid i'r bobl ymuno os nad oeddent yn dymuno gwneud hynny.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r systemau sydd ar waith i fonitro diogelwch a lleihau'r risgiau cysylltiedig i'r bobl sy'n byw yn y cartref wedi gwella, ac mae'r amgylchedd yn lân ac yn gartrefol. Mae gwaith ailaddurno ac adnewyddu sylweddol yn mynd rhagddo yn yr ardaloedd o'r gwasanaeth a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Ymgynghorir â'r bobl ynghylch cynllun lliwiau eu hystafelloedd a'r amgylchedd. Mae'r ystafell fwyta wedi cael ei haddurno yn unol â mewnbwn gan y preswylwyr. Mae'r ystafell wedi cael ei glanhau'n drylwyr ac mae bellach yn cynnig profiad bwyta dymunol i'r bobl. Mae'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau yn lân, yn hylan ac yn cael eu harchwilio'n rheolaidd yn ystod y dydd. Caiff cyfarpar megis cadeiriau olwyn, cadeiriau a theclynnau codi eu cadw yn ystafelloedd y bobl neu yn yr ystafelloedd storio. Gofynnwyd i ni gadarnhau pwy oeddem cyn mynd i mewn i'r gwasanaeth a gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr. Caiff gwybodaeth gyfrinachol y bobl ei storio'n ddiogel. Caiff deunyddiau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002, ac mae arwyddion ar ddrysau'r ystafelloedd lle y caiff y silindrau ocsigen eu storio.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth a'r prosesau sydd ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth wedi gwella. Mae rheolwr interim a dirprwy reolwr wedi'u penodi i wella ansawdd y gwasanaeth. Maent yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol sy'n agored, yn gynhwysol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn cyflawni canlyniadau da i'r bobl. Maent yn gweithio'n galed i feithrin diwylliant o ofal lle mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac sy'n eu galluogi i ddatblygu a ffynnu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl, eu perthnasau, y staff a gweithwyr proffesiynol yn rheolaidd. Mae gan y darparwr drefniadau ar waith i gwblhau archwiliadau mewnol bob mis mewn perthynas â phob agwedd ar y gwasanaeth. Mae cofnodion cyfarfodydd y staff yn dangos bod y tîm rheoli yn goruchwylio'r broses o redeg y gwasanaeth ac yn gweithredu i wella darpariaeth gyffredinol y gwasanaeth. Mae cynllun gweithredu'r darparwr yn fanwl ac yn dangos ei fod wedi mynd i'r afael â nifer o'r meysydd a'i fod yn gweithio'n galed i sicrhau cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant y staff, lefelau staffio a'r amgylchedd.

Mae datblygiad y staff a'r broses o'u goruchwylio wedi gwella er mwyn sicrhau bod y gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd ddiogel ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.  Gwelsom fod y tîm rheoli yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r staff a'r bobl ac yn arwain drwy esiampl er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael gofal urddasol wedi'i bersonoli. Gellir mynd at aelodau'r tîm rheoli unrhyw bryd ac maent yn cymryd diddordeb gwirioneddol yn yr hyn sydd gan y bobl, y staff ar gweithwyr proffesiynol i'w ddweud. Dywedodd y staff wrthym eu bod bellach yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Mae hyn yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol yn y cartref ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon. Mae recriwtio staff yn her o hyd, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i ddefnyddio llawer o staff asiantaeth.  Mae staff asiantaeth rheolaidd yn cael eu trefnu mewn bloc ymlaen llaw er mwyn sicrhau parhad gofal. Mae'r amseroedd ymateb i glychau glaw wedi gwella ac mae'r tîm rheoli yn cynnal gwiriadau dyddiol.

Mae'r darparwr bellach wedi sicrhau bod y staff yn cael cymorth ac arweiniad clir. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cymryd camau cadarnhaol i annog a chefnogi'r staff i gydymffurfio â'r gofynion o ran hyfforddiant. Mae cynllun hyfforddiant ar waith ac mae nifer o fodiwlau wyneb yn wyneb wedi cael eu trefnu ar gyfer y dyfodol agos. Mae'r cofnodion a welwyd yn ystod yr arolygiad hwn yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant craidd a hyfforddiant sy'n benodol ar gyfer y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y bobl a'u cadw'n ddiogel. Mae'r staff asiantaeth bellach yn ymgymryd â rhaglen hyfforddiant sy'n benodol i'r gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 44 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y safle'n cael ei gynnal i safon briodol er mwyn diwallu anghenion y bobl sy'n derbyn gofal. Nid yw rhai ardaloedd o'r amgylchedd yn lân, ac ni chaiff risgiau i iechyd a diogelwch eu lliniaru bob amser. | Cyflawnwyd |
| 47 | Ni chaiff gwybodaeth bersonol y bobl ei storio'n ddiogel bob amser. | Cyflawnwyd |
| 36 | Nid yw'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol nac arbenigol priodol ar gyfer y gwaith y disgwylir iddynt ei wneud. | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| 24 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y staff yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â'r bobl. | Cyflawnwyd |
| 66 | Nid yw methiannau yn y gwasanaeth wedi cael eu nodi drwy archwiliadau'r gwasanaeth ei hun na thrwy ei adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal, ac mae hyn yn peri risg o niwed i'r bobl. | Cyflawnwyd |
| 57 | Nid yw'r darparwr yn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau diogelwch y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac nid yw wedi gwneud yn siŵr bod risgiau diangen i iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu nodi a'u dileu. | Cyflawnwyd |
| 25 | Ni wrandewir ar y bobl ac ni chyfathrebir â nhw mewn ffordd gwrtais a pharchus bob amser mewn perthynas â'u hanghenion gofal a chymorth. | Cyflawnwyd |
| 34 | Nid oes digon o staff yn cael eu cyflogi yn y cartref i sicrhau diogelwch y preswylwyr. | Cyflawnwyd |
| 26 | Nid oes gan y staff na'r Unigolyn Cyfrifol ddigon o wybodaeth ac nid ydynt yn cael eu goruchwylio'n ddigonol i ddiogelu'r bobl mewn modd cadarn. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Nid yw'r staff bob amser yn ymwybodol o'r mathau o ddeiet y mae'r bobl yn eu dilyn, a allai beri risg o niwed i'r bobl. Rhaid i'r darparwr sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn ymwybodol o'r deietau a ragnodwyd i'r bobl er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/12/2023